

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

Gillian Baranski  
Prif Arolygydd  
Arolygiaeth Gofal Cymru

30 Ionawr 2023

#### Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical

Annwyl Gillian,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Nod ein gwaith yw nodi'r meysydd â blaenoriaeth lle y mae angen newid polisi er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau'r plant a'r pobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal mewn modd diogel
- Mewn gofal: Gwasanaethau o safon a chefnogaeth i blant mewn gofal
- Ar ôl gofal: Cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

Rydym wrthi'n casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid i lywio ein gwaith sy'n edrych ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal".

Rydym eisoes wedi cyfarfod â nifer fawr o unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system: rhieni geni, plant sy'n rhan o'r system ofal ar hyn o bryd a phobl ifanc sydd wedi gadael y system.

Rydym wedi cael ein synnu gan y materion sylweddol y soniwyd wrthym ni amdanynt eisoes sy'n berthnasol i gyfch gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd diddordeb gennym hefyd edrych ar eich **Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2021-22** a'r dystiolaeth a roddwyd gennych i gyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol lle'r oeddwn i'n bresennol, fel y gwyddoch, ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

#### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

#### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Felly, rydym yn awyddus i farn Arolygiaeth Gofal Cymru lywio ein gwaith craffu sydd ar fin dechrau gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'r Dirprwy Weinidog. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gyflwyno ymateb i'r pwyntiau a godir yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn **24 Chwefror 2023** fan bellaf.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r terfyn amser hwn fod yn heriol. Os oes gennych unrhyw bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor ([SeneddPlant@Senedd.Cymru](mailto:SeneddPlant@Senedd.Cymru)).

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Atodiad

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am yr wybodaeth a ganlyn sy'n rhoi barn Arolygiaeth Gofal Cymru ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennych ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth eich arolygiadau, eich adroddiadau thematig, ac adolygiadau cenedlaethol, gan gynnwys yr adroddiad cyffredinol cenedlaethol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru a'r adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2016.

- **Gwasanaethau plant a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol:** I ba raddau y mae gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu gofynion deddfwriaethol ar hyn o bryd. Dylech roi sylwadau yn benodol ac ar wahân ar gyfer tair agwedd ein hymchwiliad: cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal.
- **Y gweithlu:** Cadernid gweithlu gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol. Dylech sôn yn benodol am eich tystiolaeth am bwysau staff, trosiant, y safbwynt diweddaraf o ran priodoldeb llwythi achosion, gan roi sylwadau yn benodol ac ar wahân ar gyfer tair agwedd ein hymchwiliad: cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal.
- **Lleoliadau:** Safon ac argaeledd y gofal ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau maethu yng Nghymru. Cartrefi gofal anghofrestredig ar gyfer plant yng Nghymru, i ba raddau y cânt eu defnyddio a lefel eich pryder amdanynt.
- **Gwasanaethau Eirioli:** Dylech roi sylwadau yn benodol ac ar wahân ar gyfer tair agwedd ein hymchwiliad - sef cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal - gan gynnwys eirioli ar gyfer rhieni, eirioli ar ffiniau gofal ac eirioli proffesiynol annibynnol. Unrhyw sylwadau sydd gennych am argaeledd gwasanaethau eirioli sy'n ymweld â lleoliadau preswyl.
- **Pryderon a gorfodaeth:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am lefel a natur y pryderon a godwyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n berthnasol i dair agwedd ein hymchwiliad ac unrhyw dueddiadau yr hoffech dynnu ein sylw atynt yn hyn o beth. Unrhyw weithgarwch gorfodi sy'n berthnasol i'n hymchwiliad yn eich barn chi.
- **Rhianta corfforaethol:** Eich barn am faint o gefnogaeth sydd ar gael gan asiantaethau ar wahân i'r rhai rydych yn eu harolygu o ran cefnogi plant sydd â phrofiad o ofal. Er enghraifft, nodwn y sylwadau yn eich Adroddiad Blynyddol a'r ffaith i Arolygiaeth Gofal Cymru nodi "nad oedd digon o gymorth iechyd meddwl i blant" a bod yna "gamddealltwriaeth a cham-gyfathrebu ynghylch rolau rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r awdurdod lleol."



Byddem hefyd yn croesawu unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i'n hymchwiliad yr hoffech dynnu ein sylw atynt.

Efallai y bydd gennych ddi-ddordeb ym mhapur briffio ystadegol Ymchwil y Senedd ar blant sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, a baratowyd i lywio gwaith y Pwyllgor.